

NEGES I'R HOLL WEITHWYR CEFN
LLWYFAN YN Y BYD THEATR



YMUNWCH Â NI AM GYFARFOD CEFN LLWYFAN

Wrth i 2020 gychwyn, roeddem ni yn Theatr na nÓg yn edrych ymlaen at flwyddyn newydd o sioeau cyffrous a chydweithio â phartneriaid ac ymarferwyr creadigol newydd. Pwy allai fod wedi dychmygu bryd hynny sut y byddai covid-19 yn cael cymaint o effaith ar ein bywydau i gyd.

Serch hyn, er gwaethaf yr ansicrwydd sy'n dal i wynebu pob un ohonom, mae Theatr na nÓg wedi bod yn gweithio'n ddi-ffaid i gynllunio amrywiaeth o waith theatr gyffrous ac uchelgeisiol i ddiddori a swyno cynulleidfaoedd Cymru yn 2021.

Rydym felly yn bachu ar y cyfle hwn i estyn allan i'r hol weithwyr llawrhydd sy'n gweithio y tu ôl i'r llen yn ein diwydiant ac sy'n hanfodol i'r hud sydd yn cael eu creu ar lwyfan; y **Rheolwyr Llwyfan**, y **Technegwyr**, y **Gweithwyr Gwisgoedd** i enwi ond ychydig. Os nad ydych wedi gweithio gyda ni o'r blaen neu'n awyddus i weithio gyda ni eto yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan Gweithwyr Theatr Llawrhydd sydd wedi cael eu tangynrychioli yn Theatr na nÓg ac yn y diwydiant yn gyffredinol oherwydd y profiad o rwystrau sy'n gysylltiedig â hil, dosbarth, ethnigrwydd, rhyw, anabledd, rhywioldeb ac oedran.



Os ydych chi'n rhydd ar y 8fed o Ragfyr am 4pm, beth am ymuno â ni am gyfarfod anffurfiol ar Zoom? Mae'n cyfle gwych i gyflwyno'ch hun a chwrdd â thîm Theatr na nÓg mewn modd cymdeithasol.



Mae'n cyfle hefyd i ddarganfod pa gynlluniau cyffrous sydd ganddyn ni ar y gweill ar gyfer y flwyddyn newydd. Byddwn yn hapus i dderbyn eich CV ac i gynnig unrhyw yngor a chefnogaeth perthnasol.



I helpu ni joi'r hwyliau'r wyl, rydyn ni'n cynnig rhywbeth arbennig. Bydd y 15 person cyntaf sy'n cofrestru i ymuno â ni yn derbyn Trîit Nadoligaidd yn y post i'w mwynhau yn ystod y cyfarfod!

Os hoffech chi ymuno â ni yna [COFRESTRWCH YMA](#) a chwblhewch y ffurflen gofrestru. Byddwn yn ôl mewn cysylltiad yn agosach at y dyddiad gyda linc Zoom a manylion mewngofnodi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu. Edrych ymlaen i glywed gennych..

Mae Theatr na nÓg wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i bawb waeth beth fo'u hil, crefydd neu gred, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, rhyw, rhywioldeb, anableded neu oedran.